

INVOLVE

Cylchlythyr Bavo ar gyfer y trydydd sector ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

HYDREF 2020



BAVO

Bridgend Association of Voluntary Organisations
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr



www.bavo.org.uk

Croeso i'n cylchlythyr hydref

Mae'n rhaid i mi ddechrau drwy ymddiheuro am yr oedi wrth ddarparu'r cylchlythyr hwn, ond rydym wedi bod braidd yn brysur! Am flwyddyn! Ar y dechrau roeddem yn pryderu'n fawr am sut roedd pethau'n newid yng Nghymru. Yn paratoi i adael yr UE gyda'r angerdd ar ddwy ochr y ddadl Brexit yn creu rhaniadau enfawr yn ein cenedl, cymunedau... teuluoedd hyd yn oed! Roedd llymder yn dal i frathu ein sector, gyda nifer o elusennau yn ansicr sut yr oeddent am ddod o hyd i'r cyllid i barhau â'u gwaith. Roedd yn amser pryderus. Ac yna.... Covid!

Mae'r gwanwyn wedi'i hedfan heibio mewn fflach gan fod pawb wrthi fel lladd nadroedd i weithio drwy'r argyfwng a nawr rydym yn nesáu at fis Medi ac yn ceisio dal i fyny â'r 'gwaith o ddydd i ddydd'.

Bydd llawer ohonoch yn gwybod o'n cyfryngau cymdeithasol, gwefan a newyddion lleol fod ein tîm gwych wedi mynd y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir ganddynt, gan weithio oriau hir, saith diwrnod yr wythnos i ddarparu gwasanaeth calonogol i bobl a oedd yn bryderus ac angen cymorth. Gan weithio gartref gyda thechnoleg newydd, rydym wedi helpu pobl o bob oed a oedd yn hunan-ynysu am eu rhesymau eu hunain neu'r rhai oedd wedi cael cyngor i 'warchod eu hunain'. Siopa, parseli bwyd, presgripsiynau a chyfeillio dros y ffôn – fe wnaethom ni'r cyfan! Gan weithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, fe wnaethom hyd yn oed guro drysau i wirio bod pobl oedd wedi derbyn llythrau i 'warchod eu hunain' yn iawn.

Gwnaethom hyn oherwydd pan ddigwyddodd y cyfnod clo, bu'n rhaid i lawer o grwpiau cymunedol gau hefyd, felly fe wnaethom adleoli ein tîm i rolau 'llywio' newydd yn seiliedig ar ardal i fodloni'r bwlch ac i weithio mewn ffordd gyd-gysylltiedig ac ategol gyda'r awdurdod lleol. Diolch byth, fe wnaeth rhai grwpiau aelodau lwyddo i aros ar agor ac fe wnaeth grwpiau 'cyd-gymorth' a chynlluniau 'cymydog da' hefyd ddod i'r amlwg. Dechreuodd rhwydweithiau cymorth lleol newydd dyfu ac yn sydyn iawn, daeth diwedd ar y rhaniad yn ein gwlad a gwelwyd bod

ysbryd cymunedol yn fyw yn ein cymunedau unwaith eto.

Gwelwyd tystiolaeth bellach o hyn gan y

1,500 + o bobl a gofrestrodd gyda ni i wirfoddoli; cawsom ein llethu a'n hysbrydoli gymaint gan haelioni trigolion a oedd yn barod i ddod yn rhan o'n 'tîm ymateb brys cymunedol'. Fe wnaethom gymryd dros 5,000 o alwadau ac mae ein cyflawniadau wedi'u nodi ar dudalen 3. Dim ond o ganlyniad i'r holl wirfoddolwyr hynny a fu'n gweithio gyda ni y gwnaed y cyflawniadau hyn yn bosibl ac rydyn ni'n dal i recriwtio. Os hoffech gofrestru fel 'gwirfoddolwr ymateb cymunedol' rhag ofn y bydd argyfwng, neu don, lleol arall – ffoniwch ni! Mae gennym hefyd swyddi gwag i Ymddiriedolwyr ar draws nifer o grwpiau lleol a chanolfannau cymunedol os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn fwy rheolaidd.

Ar ben hynny i gyd, rydym wedi rhoi dros £100,000 o grantiau brys hefyd a gyda Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fe wnaethom helpu elusennau lleol i gael £680,000 arall o grantiau ardrethi hefyd. Mae'r cyllid hwn wedi golygu goroesi i lawer o ganolfannau a sefydliadau cymunedol.

Ers blynyddoedd nid yw pwysigrwydd y trydydd sector wedi cael ei werthfawrogi'n llawn. Rwy'n credu ein bod bellach wedi profi y tu hwnt i amheuaeth pa mor hanfodol ydyw i les pobl a chymunedau - ac mae angen ei flaenoriaethu drwy fuddsoddi'n briodol! Dyna pam ein bod ni'n cefnogi'r ymgyrch **#Nevermoreneeded**.

Cefnogwch yr ymgyrch ym mha ffordd bynnag y gallwch; ysgrifennu at eich ASau, ACau a'ch Cynghorydd am bwysigrwydd eich grwpiau lleol! Tan y tro nesaf, cadwch yn ddiogel bawb.

Heidi Bennett, Prif Weithredwr



Sut mae BAVO wedi gwneud gwahaniaeth ers y Cyfnod Clo

31 Gorffennaf 2020 to 31 Awst 2020

3,636


O ATGYFEIRIADAU



2,291

O BRESGRIPSIYNAU

Rydym wedi gweithio gyda fferyllfeydd a chasglu a danfon meddyginiaeth ar draws y fwrdeistref sirol.



792

O SIOPA BWYD

330

O DALEBAU BWYD

Fe wnaethom roi talebau Banc Bwyd a wnaeth fwydo 382 o oedolion a 168 o blant. Fe wnaeth gwirfoddolwyr hefyd ddarparu 148 o becynnau Banc Bwyd a mynd i siopa i bobl.



172

ACHOS O GYFEILLIO


Atgyfeiriadau ar gyfer cyfeillio Cymdeithion Cymunedol. Fe wnaethom baru 98 o wirfoddolwyr BAVO a chysylltu eraill â chynlluniau mwy priodol.



1,126

O YMWELIADAU AMDDIFFYN

Fe wnaethom ymweld â chartrefi pobl a oedd yn gwarchod eu hunain am nad oedd modd cysylltu â nhw dros y ffôn ac roedd angen i ni sicrhau eu bod nhw'n iawn.



HYDREF 2020

**Rydym wedi ein llethu gan yr ymateb gan drigolion
ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr!**



**Derbyniodd BAVO dros 1,500 o gofrestriadau gwirfoddolwyr ym mis Mawrth ac Ebrill.
Nododd CGGC mai'r lefel hon o gofrestriadau oedd y trydydd uchaf o ran niferoedd
yng Nghymru gyfan bryd hynny!**

HYDREF 2020

Ni allwn ddechrau disgrifio faint rydyn ni wedi cael ein hysbrydoli gan y caredigrwydd y mae pobl wedi'i ddangos wrth ddymuno helpu'r rhai mewn angen yn ystod pandemig Covid-19

Mae gwirfoddolwyr wedi bod yn wych, gan eu bod wedi helpu gyda siopa, casglu presgripsiynau, cyfeillio/gwirio lles dros y ffôn a ffonio neu ymweld ag unigolion sydd ar y rhestrau o bobl sy'n gwarchod eu hunain. Rydyn ni wedi cael ein llethu a'n darostwng gan haelioni a charedigrwydd ein trigolion lleol.



Meddai prif weithredwr BAVO Heidi Bennett:

“Wrth i'r cyfnod clo gael ei lacio dros amser a gwirfoddolwyr ddychwelyd i'r gwaith neu eu gweithgareddau dyddiol, gobeithiwn y gall llawer o'r gwirfoddolwyr sy'n weddill gamu i mewn. Byddwn mewn cysylltiad â gwirfoddolwyr sydd wedi cofrestru wrth i'r angen godi.

“Diolch i'n holl wirfoddolwyr am helpu pobl sy'n agored i niwed sy'n byw yn ein cymunedau yn y cyfnod anodd hwn.”

HYDREF 2020

Rydyn ni angen unigolion brwdfrydig gyda sgiliau a phrofiad perthnasol i ymuno â'n bwrdd



Mae croeso i unigolion brwdfrydig sydd â sgiliau a phrofiad perthnasol ymuno â'n Bwrdd Ymddiriedolwyr BAVO a helpu i lywio ein datblygiad yn y dyfodol.

Rydym yn chwilio am unigolyn cymwys i weithredu fel Trysorydd, ond mae gennym swyddi gwag eraill hefyd a byddem yn croesawu ceisiadau gan y rhai sydd â phrofiad cyfreithiol, strategol, datblygu aelodau a TGCh, gwefan a/neu farchnata a chyfryngau cymdeithasol.

Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a hefyd pobl ifanc dros 18 mlwydd oed.

I gael pecyn gwybodaeth, anfonwch e-bost at: heidibennett@bavo.org.uk

Galw pobl ifanc dan 25 mlwydd oed! Eisiau ymuno â'n Panel Ariannu?

Rydyn ni'n cynnig cyfle i bobl ifanc o dan 25 mlwydd oed fod yn rhan o'r Panel Cyllido dan Arweiniad Pobl Ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sy'n helpu i fynd drwy'r ceisiadau am gyllid a gawn gan sefydliadau sy'n ceisio datblygu mwy o gyfleoedd gwirfoddoli ieuencid.

Mae Sheldon yn gwirfoddoli ar gyfer Panel Dan Arweiniad Ieuencid Pen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd: "Rwy'n rhan o banel ieuencid sy'n dyrannu cyllid i wahanol elusennau a sefydliadau er mwyn eu helpu i gyflawni eu cynlluniau i helpu a chynnwys pobl ifanc.

"Byddwn i'n annog pobl ifanc 100% i ymuno, maen nhw'n grŵp hyfryd o bobl ifanc, rydyn ni'n hamddenol, nid oes unrhyw bwysau ac nid yw'n ymrwymiad mawr."

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â BAVO,
Ff: 01656 810400 neu
E: volunteering@bavo.org.uk



HYDREF 2020

Diolch i chi oherwydd...



Dywedodd Frances 80 mlwydd oed o Ogledd Corneli:
“Ni fyddwn i wedi goroesi heb BAVO, maen nhw wedi bod yn wych, yn hollol wych. Maen nhw'n cerdded fy nghi, maen nhw'n casglu fy mwyd ac mae gen i wraig sy'n fy ffonio bob yn ail ddiwrnod ac rydyn ni'n cael sgwrs hyfryd. Dw i wrth fy modd!
“Y fferyllfa wnaeth roi gwybodaeth i mi BAVO – doeddwn i erioed wedi clywed amdanynt o'r blaen ond rwyf wedi bod yn dweud wrth bawb amdanynt.
“Mae'n llenwi fy niwrnod, mae wedi fy achub yn feddylol. Does dim byd gwaeth na bod yn sownd tu mewn a'i bod hi'n ddistaw. Alla i ddim eu canmol digon.”


HYDREF 2020

Dros 50 mlwydd oed ac eisiau cadw'n actif? Ymunwch â Superagers Pen-y-bont ar Ogwr!

Mae ein Hysgogwyr Cymunedol wrth eu bodd yn sgwrsio ac maen nhw'n wrandawyr gwyh hefyd!

Drwy alwadau ffôn rheolaidd byddwn yn eich helpu i feddwl am syniadau am sut i ymgymryd â gweithgareddau iach i'ch cadw'n actif gartref a rhoi syniadau defnyddiol i chi ar sut y gallwch gymryd rhan mewn sesiynau actif allan yn eich cymuned leol.

Am fanylion pellach cysylltwch â Fiona Burlingham, Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr Super-Agers BAVO, Ff: 07923 212 737 neu E: bavo@bavo.org.uk



Cipolwg ar rai o'n cyfleoedd gwirfoddoli

Mae ein Tîm Gwirfoddoli yn cynnig adnodd un stop ar bob agwedd ar wirfoddoli gyda thros 300 o fudiadau gwirfoddol cofrestredig yn cynnig ystod eang o gyfleoedd i gyd-fynd â sgiliau a diddordebau pobl.

Trinity Care and Support, Porthcawl

Mae angen dau wirfoddolwr newydd (18+), un i helpu yn eu Clwb Gweithgareddau Tondur ar ddydd Gwener ac un arall i helpu o fewn eu prosiect rhandiroedd.

Prosiect Gardd Gofalwyr - Carers Garden Project

Mae Canolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr angen gwirfoddolwyr ar gyfer eu prosiect newydd sydd wrth eu boddau'n garddio!

Mental Health Matters Wales

Mae angen cyfeillion ffôn gwirfoddol i leddfu straen unigrwydd ac unigedd cymdeithasol.

Ymddiriedolaeth Ddatblygu Caerau

Mae angen gyrrwyr gwirfoddolwyr i gasglu bwyd o siopau yng Nghastell-nedd Port Talbot, Caerdydd a'r Bont-faen

Gallwch ddod o hyd i'r holl gyfleoedd gwirfoddoli diweddaraf drwy ymweld â

Bridgend.volunteering-wales.net I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â BAVO,

T. 01656 810400, E: volunteering@bavo.org.uk neu ewch i'n tudalennau gwirfoddoli yn www.bavo.org.uk

HYDREF 2020

Cyllid ICF yn mynd â Logan i le hapus!

Dyfarnwyd £8,934 i Karma Seas CIC ym Mhorthcawl yn ddiweddar mewn cyllid lles cymunedol ICF i ddarparu sesiynau therapi syrffio i amrywiaeth o bobl o bob oed, gallu a chefnidir.

Mae eu cyllid wedi galluogi mynediad i weithgaredd sydd wedi ei brofi i fod â manteision i les corfforol a meddyliol, gan feithrin cysylltedd cymdeithasol a chyfeillgarwch. Mae Logan wastad wedi caru'r môr wrth iddo dyfu fyny ac roedd bob amser yn meddwl pa mor cŵl ydy hi i syrffio!

Nid oedd ganddo'r hyder i ymuno â chlwb syrffio prif ffrwd oherwydd ei Aspergers ac ni allai fforddio gwersi syrffio preifat. Meddai Logan: "Ers syrffio a gwirfoddoli gyda Karma Seas rwy'n cysgu'n well ac mae fy lefelau pryder wedi gostwng yn ddramatig.

Rwyf wedi gwneud ffrindiau newydd yr wyf yn syrffio gyda nhw ac yn cadw mewn cysylltiad â nhw ar gyfryngau cymdeithasol. Rwyf wedi datblygu sgiliau diogelwch dŵr newydd a byddaf yn cwblhau gwobr achub bywyd syrffio cyn bo hir. Mae syrffio yn mynd â fi i'm man hapus!"



Caraoce a chwisiau gyda'r Victoria Street Nutters!

Fe wnaeth arian MoneySavingExpert.com wedi'i weinydd gan BAVO, helpu'r 'Victoria Street Nutters' yng Nghwm Garw i redeg caraoce a chwisiau yn ystod y cyfnod clo, gan sicrhau bod pob tŷ yn cael ei gynnwys yn yr hwyl i ddarparu cyfeillgarwch a chwmni hanfodol.

"Rydym wedi bod yn darparu adloniant i drigolion ein stryd. Mae'r mwyafrif yn oedrannus sydd wedi bod yn hunan-ynysu ers dechrau'r cyfnod clo. Ers i ni ddechrau gyda bingo stepen drws, fe wnaethom ychwanegu gemau amrywiol gan gynnwys 'Play Your Cards Right' a 'Blankety Blank', tra'n dilyn y rheolau cadw pellter cymdeithasol bob amser.

"Mae'r holl breswylwyr yn edrych ymlaen at ein gweithgareddau.

Drwy gydol y digwyddiadau hyn rydym wedi rhoi arian i achosion da amrywiol gan gynnwys y GIG, cartrefi gofal, yr eglwys leol ac elusennau cenedlaethol.

"Hoffem ddiolch i'r Cynghorydd Rod Shaw am ein henwebu, MoneySavingExpert.com a BAVO. Daeth yn gymaint o sioc gan ein bod yn cael cymaint o hwyl gyda'n gilydd, ni wnaethom sylweddoli'r effaith y byddai ein gweithredoedd yn ei chael ar y gymuned ehangach, felly diolch!"



HYDREF 2020

Mae BAVO wedi rhoi dros £200,000 i sefydliadau lleol eisoes eleni!

Rydym wedi bod yn brysur yn gweinyddu amrywiaeth o grantiau gan gynnwys Cronfeydd Trawsnewid a Gofal Integredig Llywodraeth Cymru a Chronfa Budd Cymunedol Suncredit.

Yn enwedig yn ystod y misoedd diwethaf, rydyn ni wedi gweithio'n agos gyda sefydliadau lleol i helpu gyda'r gwaith anhygoel sy'n cael ei wneud ym mhob cymuned ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod cyfnod mor heriol.

Mae llawer o'n haelodau wedi elwa o'n cefnogaeth i nodi ffynonellau cyllid, gyda chanran uchel yn llwyddiannus yn eu ceisiadau.

Mae ein rhaglenni cyllid brys rhanbarthol ychwanegol ar gyfer Covid-19 wedi arwain at ddyfarnu dros £200K eisoes i grwpiau ym Mhen-y-bont ar Ogwr hyd yma eleni!



Rydym eisiau rhoi mwy o arian erbyn diwedd y flwyddyn...

Angen help i ysgrifennu ceisiadau am gyllid neu grant?

Ddim yn siŵr sut i ateb y cwestiynau anodd hynny ar ffurflen gais?

Ei chael hi'n anodd cwblhau ceisiadau ar-lein?

Peidiwch byth â gadael i gyfle ariannu lithro heibio am nad ydych yn hyderus yn eich sgiliau a chysylltwch â'n Swyddogion Datblygu yn BAVO. Rydyn ni'n sylweddoli bod sefydliadau'r trydydd sector yn mynd trwy amser heriol wrth wynebu'r dyfodol ac yn parhau i fod yno i'n cymunedau. Ein nod yw sicrhau nad yw sefydliadau ar eu colled o ran cyrchu cyllid priodol gan y llywodraeth a'u bod yn ymwybodol o grantiau lleol.

Yn BAVO, mae ein gwasanaethau ariannu yn helpu grwpiau i fynd drwy gymhlethdodau codi arian mor hawdd ac effeithlon â phosibl drwy rannu ein gwybodaeth, ein profiad a'n harbenigedd ariannu. Peidiwch â cholli allan ar gyllid eto!

"Mae BAVO nid yn unig wedi bod yn gymorth enfawr gyda'r cymorth maen nhw wedi'i roi i'r prosiect o ran cyllid, ond hefyd o ran anogaeth ac arweiniad clir ynghylch ein cyfrifoldebau a sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd."

Prosiect Tlodi Bwyd BCLC

HYDREF 2020

Cipolwg ar y cyllid sydd ar gael



Grantiau Dan Arweiniad leuenctid yn cynnig hyd at £1,500

Cyllid i helpu pobl ifanc i wirfoddoli rhwng 14 a 25 mlwydd oed er mwyn cymryd mwy o ran mewn sefydliadau cymunedol a gwirfoddol yn eu cymuned leol.

Gyda chymorth BAVO, mae Grŵp Cyllido leuenctid Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys grŵp o bobl ifanc sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac mae'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru Diben y cyllid yw nodi ffyrdd o ymgysylltu â mwy o bobl ifanc o gymunedau difreintiedig a chymunedau heb ddigon o gynrychiolaeth. Dyddiad Cau: 12pm, 11 Medi 2020. Ewch i dudalennau ariannu

www.bavo.org.uk

Cronfa Adfer Gwasanaethau Gwirfoddol

Cynllun grant i fudiadau gwirfoddol sy'n darparu cymorth hanfodol yn ystod argyfwng Coronafeirws. Bydd grantiau'n cefnogi sefydliadau nid-er-elw sy'n gweithio ar raddfa gymunedol hyd at lefel genedlaethol yng Nghymru a gall fod rhwng £10,000 a £100,000.

Wrth i Lywodraeth Cymru lacio'r cyfnod clo ac wrth i bobl yng Nghymru ddechrau symud ymlaen, mae angen i'r cyllid ymateb i heriau newydd. Mae llawer o gymunedau wedi dioddef yn anghymesur, felly mae angen cymryd camau i sicrhau adferiad teg a chyfiawn.

wcva.cymru/funding/volunteering-wales-grants-scheme

Cronfa Pontio RAFT Fore

Yn hydref 2020, bydd grantiau digyfngiad o hyd at £15,000 ar gael i helpu elusennau bach a mentrau cymdeithasol i gynllunio ar gyfer y tymor hwy mewn byd ar ôl coronafeirws.

www.thefore.org/applying-for-funding

Screwfix Foundation

Ar gyfer adeiladau a neuaddau cymunedol, mae cyllid hyd at £5,000 ar gael ar gyfer prosiectau a fydd yn trwsio, cynnal, gwella ac atgyweirio cyfleusterau elusennol a chymunedol i'r rhai mewn angen oherwydd caledi ariannol, salwch, anabledd, trallod neu anfantais arall yn y DU.

www.fundingforall.org.uk/funds/the-screwfix-foundation

Bagiau am Gymorth Tesco

Dyfarniad taliad sengl o £500 i sefydliadau sy'n cefnogi grwpiau sy'n agored i niwed, fel rhan o'u hymateb brys i gefnogi cymunedau lleol.

www.tescobagsofhelp.org.uk

Fel y gwyr yr aelodau, mae BAVO yn dosbarthu diweddariadau ariannu misol, ond peidiwch ag anghofio gwirio ein gwefan BAVO yn rheolaidd am gyfleoedd ariannu newydd yn

www.bavo.org.uk

Cofiwch hefyd gofrestru YN RHAD AC AM DDIM gyda funding.cymru i chwilio eich hun am gyllid!

HYDREF 2020

Masgiau wyneb ar werth diolch i gyllid gan BAVO

Mae'r elusen digartrefedd Emmaus South Wales wedi bod yn gwneud mygydau wyneb tair haen y gallir eu golchi allan o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu drwy gydol y cyfnod clo i helpu i gynhyrchu arian i gefnogi ei waith a sicrhau nad yw PPE yn cael ei dynnu oddi ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol, diolch i gyllid gan BAVO

Mae'r prosiect hwn nid yn unig wedi dysgu sgil newydd iddynt ond bydd yn parhau i sicrhau nad yw mygydau wyneb yn cael eu tynnu oddi ar y GIG a gweithwyr rheng flaen." Dywedodd Jemma Wray, Prif Weithredwr Emmaus South Wales: "I ddechrau, roeddem yn gwneud mygydau wyneb ar raddfa lawer llai i ni ein hunain yn unig, ond diolch i'r grant gan BAVO roeddem yn gallu cynyddu'r gwaith o gynhyrchu ein mygydau moesegol, y gallir eu golchi ac sy'n gynaliadwy, gan wneud tua 100 yr wythnos. Helpodd yr arian gan BAVO ni i brynu peiriannau gwnïo ychwanegol ac offer gwnïo i'n tîm eu defnyddio.

Gellir prynu mygydau wyneb drwy ymweld â emmaus.org.uk/south-wales



Caerau 'Inside Out'

Ar ôl y sioc uniongyrchol o ddechrau'r cyfnod clo ym mis Mawrth, cafodd grwpiau a chanolfannau cymunedol lleol yng Nghaerau eu llethu gan y cynnydd sydyn yn y galw am fwyd, siopa, casgliadau presgripsiwn, cerdded cŵn ac anghenion sylfaenol eraill.

Mewn ymateb, mae Gweithiwr Cymorth Cyllido Buddsoddi Caerau Lleol BAVO wedi bod yn gweithio gyda grwpiau i wneud ceisiadau am gyllid i ddenu grantiau cyllid brys yn llwyddiannus ac mae'r rhain wedi'u helpu gyda chasgliadau bwyd, siopa, dosbarthu a chostau sefydliadol. Fe wnaeth hi hefyd gefnogi'r gymuned i recriwtio mwy o gymorth a chynghor gwirfoddolwyr ar draws ystod o feysydd i'w helpu i lywio eu ffordd drwy'r cyfnod newydd a heriol hwn.

"Dydw i ddim yn gwybod beth fyddem ni wedi'i wneud heb y gefnogaeth hon, a dweud y gwir dydw i ddim yn meddwl y byddem wedi goroesi. Rydym yn falch o ddweud ein bod wedi helpu ein cymuned drwy'r cyfnod heriol iawn hwn, mae ein gwirfoddolwyr wedi gweithio bob awr o'r dydd ac ni allem fod wedi gwneud hyn hebddynt." (Graham Dawe, Ymddiriedolaeth Ddatblygu Caerau).

Os oes angen cymorth neu gyngor ariannol arnoch i ddatblygu eich grŵp, eich prosiect neu'ch syniad yng Nghaerau, cysylltwch ag Alex Bowen, F: 07719 523842 or E: alexbowen@bavo.org.uk



HYDREF 2020

Cofiwch ddiweddarau eich polisïau a'ch gweithdrefnau!

Ydy eich polisïau a'ch gweithdrefnau'n casglu llwch mewn ffeil yng nghefn cwpwrdd? Ydy hi'n teimlo fel tasg enfawr i'w cadw nhw'n gyfoes ac yn berthnasol? Dylai polisïau a gweithdrefnau fod yn ddogfennau byw a dylent dyfu ac addasu gyda sefydliad. Er y gall elfennau craidd polisi aros yr un fath, gall y manylion newid. Dylai pob ymddiriedolwr, staff, gwirfoddolwr a defnyddiwr gwasanaeth fod yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol a gwybod sut i gael gafael arnynt.

Pam adolygu eich polisïau?

Gall polisïau hen ffasiwn adael eich sefydliad mewn perygl. Gall hen bolisïau fethu â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau newydd a allai arwain at arfer anghyson neu wael. Mae adolygu polisïau a gweithdrefnau'n rheolaidd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'ch sefydliad ac yn sicrhau bod eich polisïau'n gyson ac yn effeithiol.

Pa mor aml y dylech adolygu eich polisïau?

Fel rheol gyffredinol, dylid adolygu pob polisi bob blwyddyn i dair blynedd. Fodd bynnag, mae eithriadau a allai olygu bod angen newid polisïau ar unwaith neu ar ddyddiad penodol:

- Os bydd eich sefydliad yn mynd drwy newidiadau ar raddfa fawr;
- Newidiadau i gyfreithiau neu reoliadau sy'n effeithio ar y sefydliad;
- Os bydd damwain/digwyddiad yn digwydd.



1. Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf gyda chylchlythyrau, e-fwletinau, gwefan a chyfryngau cymdeithasol BAVO.
2. Gwiriwch bolisïau enghreifftiol BAVO sydd i'w gweld yn www.bavo.org.uk
3. Dewch yn aelod o sefydliadau sy'n cefnogi eich sector.
4. Cofrestrwch ar gyfer cylchlythyrau perthnasol e.e. ACAS, y Rheoleiddiwr Pensiwn.
5. Ceisiwch fynychu hyfforddiant, cynadleddau a seminarau.
6. Dynodwch y cyfrifoldeb am oruchwylio'r gwaith o ddiwygio'r polisïau a'r gweithdrefnau.
7. Cofnodwch polisïau a gweithdrefnau'n electronig lle gellir cael gafael arnynt yn hawdd.

Os hoffech gael rhagor o gymorth, cysylltwch â Swyddogion Datblygu BAVO neu edrychwch ar ein polisïau enghreifftiol www.bavo.org.uk

HYDREF 2020

Hyfforddiant, briffio a gweithdai ar-lein NEWYDD (drwy Zoom)

Mae'n bwysig i ni wneud yn siŵr eich bod yn gallu cael mynediad i sesiynau Zoom.

Os oes angen cymorth arnoch i wneud hyn, byddwn yn hapus iawn i'ch helpu i ddysgu un-i-un dros y ffôn, sut i lawrlwytho a defnyddio'r ap Zoom am ddim i gymryd rhan.

I gofrestru ar gyfer un o'n sesiynau ar-lein (oni nodir yn wahanol),

lawrlwythwch a llenwch ein ffurflen archebu ar ein tudalen hyfforddi yn www.bavo.org.uk a'i dychwelyd i bavo@bavo.org.uk



Sut i ysgrifennu astudiaeth achos a dweud eich stori wrth gyllidwyr

Dydd Iau 17 Medi 2020 10am – hanner dydd
Cost: Rhad ac am ddim

Dylai astudiaeth achos ddangos i'ch cyllidwr beth yw gwerth prosiect neu ymyriad drwy gasglu sut y gwnaeth wahaniaeth cadarnhaol i'r buddiolwyr ac ychwanegu lliw at eich adroddiad gwerthuso.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer ymddiriedolwyr neu weithwyr prosiect yn y trydydd sector sydd am ennill y sgiliau a'r wybodaeth i ddatblygu astudiaethau achos ystyrlon ac effeithiol fel rhan o werthusiadau prosiect

Diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion – sut i'w wneud, beth i chwilio amdano, beth i'w wneud

Dydd Gwener 16 Hydref 2020 10am – hanner dydd
Cost: Rhad ac am ddim

Mae'r cwrs hwn ar gyfer gwirfoddolwyr a staff yn y trydydd sector.

Ei nod yw codi ymwybyddiaeth o ddiogelu yn gyffredinol a datblygu dealltwriaeth a hyder cyfranogwyr o'u rôl eu hunain mewn perthynas â diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion drwy gydnabod gwahanol fathau o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod a sut mae unigolion yn cael eu hamddiffyn.

Dod yn fuan...

Cyfrifyddu/cadw llyfrau sylfaenol ar gyfer trysoryddion mudiadau gwirfoddol

Codi arian (gan gynnwys codi arian ar-lein)

Hyfforddiant Link Up 'Get on Board' i bobl ifanc 15-25 i ddysgu mwy am fod yn ymddiriedolwr (yn cael ei gyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg)

Adnabod eich dogfen lywodraethol eich hun - sesiwn Link Up ar gyfer ymddiriedolwyr mwy profiadol

Gweithdy dan arweiniad Mentor Link Up: Lles meddyliol i ymddiriedolwyr

HYDREF 2020

Link Up yn dod allan o'r cyfnod clo!

Fe wnaethom aildddechrau gweithgarwch yn ystod y cyfnod clo tua diwedd Mehefin ac rydyn ni nawr yn ôl yn ein hanterth er ei fod yn edrych ychydig yn wahanol y dyddiau hyn! Nod ein prosiect Link Up a ariennir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Fawr yw cefnogi elusennau, sefydliadau cymunedol a gwirfoddol i gael llywodraethu cryfach, ac, fel rhan o hynny, i ymddiriedolwyr wella eu sgiliau a'u hyder.



Rydyn ni nawr yn gweithio ar-lein yn hytrach na wyneb yn wyneb. Er bod cyfyngiadau ar hyn, mae'r rhan fwyaf o ymddiriedolwyr wedi dweud wrthym ei fod hefyd yn gyfleus iawn, gan y gallant ffitio gweithgaredd Link Up i'w bywydau prysur yn haws na cyn y pandemig – does dim angen meddwl am gymryd amser allan, cerdded, gyrru, parcio, neu hyd yn oed beth i'w wisgo – gallwch fewngofnodi o'ch ystafell fyw, swyddfa, cegin neu sied arddio!

Mae ein sesiynau 'sgwrs a phaned' ar gyfer ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor o bob rhan o ardal Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn ddefnyddiol iawn i rannu eu heriau, eu pryderon a'u syniadau. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi gofyn i'r rhain barhau bob mis, a byddant yn cael eu cynnal ar ddydd lau cyntaf pob mis rhwng 2 – 3pm.

Mae'r cymorth datblygu Link Up rhad ac am ddim sydd ar gael i ymddiriedolwyr ac aelodau'r pwyllgor yn cynnwys:

- ymsefydlu i'ch rôl fel ymddiriedolwr newydd;
- gweithdai "pwyso a mesur/symud ymlaen" ar gyfer byrddau a phwyllgorau ymddiriedolwyr;
- cyfleoedd i ymddiriedolwyr sydd newydd eu penodi gael eu paru â mentor i gefnogi eu cyfnod cychwynnol o dri i chwe mis fel ymddiriedolwr;
- cyfleoedd i ymddiriedolwyr profiadol gael eu paru â mentor i'w helpu i wella eu sgiliau fel ymddiriedolwr.

Os ydych yn ymddiriedolwr a hoffai elwa o weithio gyda mentor Link Up, neu os ydych chi'n meddwl y gallai eich Bwrdd elwa o weithdy ac os hoffech drafod ymhellach, heb ymrwymiad, cysylltwch â Suzanne yn BAVO, E: suzannechisholm@bavo.org.uk neu Ff: 01656 810400.

HYDREF 2020

Covid-19 a'r effaith ar iechyd meddwl a lles

Er ei bod yn anodd asesu'n union sut fydd pethau'n edrych yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn lleol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a ledled y wlad, mae'n deg dweud bod y misoedd diwethaf wedi bod yn anodd i lawer o bobl.

Mae arolygon diweddar a gynhaliwyd gan aelodau o'r cyhoedd yn dangos cynnydd dramatig yn y rhai sy'n profi pryder oherwydd ffactorau megis:

- iechyd personol;
- pryder am iechyd anwyliad;
- pryder am gyllid personol;
- poeni am les plant a'u haddysg;
- unigrwydd ac unigedd cymdeithasol.

O ddechrau pandemig Covid-19, mae'r trydydd sector wedi bod yn arwain y ffordd yn lleol o ran darparu cymorth i grwpiau ac unigolion sy'n agored i niwed a'r rhai sy'n amharod i gyrchu gwasanaethau cyhoeddus, hynny oherwydd eu bod nhw ofn y feirws neu ddim yn dymuno rhoi pwysau ar y GIG.

Gyda'r rhan fwyaf o wasanaethau'n seiliedig ar y ffôn ac ar-lein, mae pobl mewn angen wedi dal i allu cael mynediad at weithgareddau cyfeillio, cymorth gan gymheiriaid a gweithgareddau therapiwtig. Mae'r ymateb cyhoeddus llethol i'r alwad am weithredu gan wirfoddolwyr wedi helpu i gryfhau grwpiau a sefydliadau lleol i barhau i gefnogi eu defnyddwyr gwasanaeth a'u haelodau.

Mae gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau'r trydydd sector ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cyfarfod bob chwarter fel rhan o'r DAMHSN (Rhwydwaith Cyffuriau, Alcohol a Gwasanaethau Iechyd Meddwl).



Aelodau DAMHSN sy'n darparu cymorth ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod pandemig Covid-19 yw:

Iechyd meddwl:

Mental Health Matters Wales:

www.mhmwales.org.uk

Hafal: www.hafal.org

Platform (Gofal gynt): www.platfform.org

Tŷ Elis Counselling: www.tyelis.org.uk

Valleys Steps: www.valleyssteps.org

Cwm Taf Morgannwg Mind:

www.ctmmind.org.uk

Samaritans Cymru:

www.samaritans.org/samaritans-cymru

Cyffuriau ac alcohol:

WCADA: www.wcada.org

NewLink Wales (Ogwr DASH gynt)

www.newlinkwales.org.uk

Dan 24/7 (Wales Drug and Alcohol Helpline):

www.dan247.org.uk

Am y cyfleoedd a'r cyfarfodydd newyddion iechyd diweddaraf, cysylltwch â Rebecca Hoskin, Swyddog Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
BAVO, Ff: 01656 810400 neu
E: rebeccahoskin@bavo.org.uk

HYDREF 2020

Home-Start Cymru yn ehangu gwasanaethau

Rhwydwaith cymunedol lleol o wirfoddolwyr hyfforddedig a chymorth arbenigol yw Home Start Cymru sy'n cynnig cymorth cyfrinachol emosiynol ac ymarferol i deuluoedd â phlant ifanc. Maen now wedi cael arian gan CGGC i lansio eu Prosiect Enfys, a fydd yn eu gweld yn ehangu eu gwasanaethau i gyrraedd mwy o deuluoedd â phlant dan 11 mlwydd oed.

Yn ogystal â chyflwyno mwy o gymorth o bell, bydd y cyllid yn eu galluogi i sefydlu gwasanaeth danfon stepen drws yn ddiogel gan ddarparu bwyd a chyflenwadau hanfodol i deuluoedd sy'n gaeth gartref heb fawr o gyfle i gael mynediad at yr eitemau sylfaenol sydd eu hangen arnynt.

E: info@homestartcymru.org.uk



Prynwch eich mwigwd wyneb gan wirfoddolwr SUSSED 'crefftus'!

Gan helpu i gefnogi'r incwm i gadw SUSSED yn mynd, mae gwirfoddolwyr 'Cwtchanble Creations' yn cynnig mygydau tair haed i ddynion, menywod a phlant er mwyn cadw preswylwyr yn iach ac yn ddiogel. Maen nhw hefyd yn cynnig clustogau a ffedogau Cwtch/Cariad i'w gwerthu.

Galwch i mewn i SUSSED heddiw!

Wedi'i lleoli yn 4 – 5 James Street
(ger Llwyfan Stryd John) ym Mhorthcawl, am
fanylion pellach ffoniwch 01656 783962,

E: info@sustainablewales.org.uk neu ewch i
www.sustainablewales.org.uk/sussed



HYDREF 2020

Cymuned ar-lein Hafal 'Clic' wedi'i hail-wampio a'i chyflwyno ledled y DU

Fe wnaeth arolwg cenedlaethol diweddar a gynhaliwyd gan elusen iechyd meddwl Cymru Hafal ganfod fod yr achosion o Covid-19 wedi effeithio'n negyddol ar iechyd meddwl 74% o ymatebwyr.

Gyda gwasanaethau iechyd meddwl wyneb yn wyneb a grwpiau cymorth yn cael eu gorfodi i ddod i ben dros y misoedd diwethaf, mae Hafal wedi gallu cyflwyno eu cymuned ar-lein Clic i'r DU gyfan, gan alluogi unigolion i gael cymorth 24/7 o'u cartrefi.

Drwy heriau'r pandemig, mae Clic wedi cefnogi nifer sylweddol o bobl ledled y DU ac mae defnyddwyr wedi helpu ei gilydd drwy bob math o broblemau.

Yr hyn y mae Clic yn ei brofi yw pa mor therapiwtig ydy hi i rannu profiadau, cefnogi eraill a theimlo'n gysylltiedig.

I gofrestru, ewch i: clic-uk.org ac ymuno â'r sgwrs!



Y pandemig wedi nodi bron i 200 o ofalwyr newydd sydd angen cymorth

Ers dechrau'r pandemig, mae gofalwyr a theuluoedd wedi teimlo'n ynysig ac yn ymwneud llai yn eu cymuned sydd wedi cael effaith enfawr ar eu lles.

Caeodd Canolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr ei drysau ym mis Mawrth ond serch hynny maen nhw wedi nodi bod angen cymorth ar bron i 200 o ofalwyr newydd. Mae eu cyswllt dros y ffôn wedi bod yn hanfodol, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ofalwyr neu gynnig sgwrs gyfeillgar.

Maen nhw hefyd wedi derbyn cyllid i ddarparu gweithgareddau ar-lein i helpu gyda straen a chefnogi iechyd gan gynnwys ymwybyddiaeth ofalgar; hyder; maeth ac iechyd; pryder; Pum Ffordd o Wella; Tai Chi a chysgu.

Drwy grwpiau WhatsApp, Facebook a Zoom, bu gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn cymryd rhan gref mewn gweithgareddau gan gynnwys heriau wythnosol; sesiynau llesiant; crefftau; cwisiau; ffotograffiaeth a choginio.

Mae'r gweithgareddau hyn wedi cadw'r bobl ifanc hyn yn gysylltiedig, yn llai pryderus, dan lai o straen ac wedi rhoi cyfle iddyn nhw gyfarfod â phobl ifanc eraill ar-lein.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â Chanolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr, T: 01656 658479, E: enquiries@bridgendcarers.co.uk neu ewch i

www.bridgendcarers.co.uk



HYDREF 2020

Llywyr Cymunedol sy'n gwneud i bob cyswllt gyfrif drwy eich cysylltu chi â'ch cymuned

Nod ein Llywyr Cymunedol yw helpu unigolion gan gynnwys eu ffrindiau a'u teulu, i gyrchu gweithgareddau, gwybodaeth a chyngor yn y gymuned a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau ac a fydd yn atal eu hamgylchiadau rhag dirywio i bwynt lle y gallai fod angen cymorth iechyd neu ofal cymdeithasol lefel uwch arnynt.



Mae Glenda yn byw ar ei phen ei hun (gyda'i chath Bonnie). Mae'n rhannol ddall, yn defnyddio ffon i gerdded ac yn dioddef o NEAD (Anhwylder Pyliau nad ydynt yn Epileptig). Roedd hyder a phryder isel Glenda yn golygu na allai ddefnyddio'r gwasanaeth bws lleol.

Awgrymodd ein Llywyr Cymunedol nifer o weithgareddau cymunedol y byddai Glenda o bosibl yn hoffi eu mynychu gan gynnwys boreau coffi, Cadw'n Heini i bobl dros 50 mlwydd oed, Clwb Canu a Clwb Ciniawa. Cefnogodd ein Llywyr Glenda i ddal y bws i Borthcawl, gan 'ddal ei llaw' i gynllunio taith, mynd ar y bws, defnyddio ei phas ac gadael pan oedd hi'n cyrraedd ei chyrchfan.

"Rwy'n teimlo'n fwy hamddenol ynof fy hun - er bod pethau yn digwydd o'm cwmpas. Dwi'n darllen mwy, yn gwneud chwiliadau geiriau, gwahanol bethau roeddwn i'n hoffi eu gwneud - dwi'n ôl yn gwau.

Rwyf wedi cwrdd â phobl newydd ac rwy'n gwneud pethau newydd yn yr wythnos. Rwy'n teimlo'n falch fy mod yn gallu defnyddio'r bws - rwy'n fwy hyderus. Dwi'n cerdded mwy ac yn mynd i sesiynau Cadw'n Heini - dwi wedi colli pwysau ac mae fy meddyg yn falch fy mod yn fwy heini!



Yng nghanol pandemig Covid-19 a'r cyfnod clo, mae rôl ein Llywyr wedi newid i ddiwallu anghenion y gymuned. Mae'r tîm wedi cael ei gydnabod fel cyfeirbwynt a chymorth hanfodol gan ddarparu cymorth unigol a chyfeirio ar gyfer pobl sy'n agored i niwed.

Hyd y gellir rhagweld, bydd y rôl llywio cymunedol yn rhan o'r gwasanaeth sy'n datblygu ac yn newid yn gyson y mae BAVO yn ei reoli fel rhan o ymateb cymunedol. Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau drwy fynd i'n gwefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol neu cysylltwch â BAVO, T: 01656 810400 neu E: bavo@bavo.org.uk

HYDREF 2020

Gwneud gwahaniaeth i'ch cymuned

Wedi'i ariannu gan y Gronfa Trawsnewid, mae ein Swyddog Gwydnwch Cymunedol yn gweithio gyda grwpiau cymunedol ac unigolion Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i nodi'r hyn a fyddai, yn eu barn nhw, yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w hardal leol drwy eu cefnogi i ddatblygu mentrau a gweithgareddau newydd.

Os oes gennych unrhyw syniadau a fyddai'n gwella lle rydych chi'n byw ac angen cymorth i'w roi ar waith, cysylltwch â ni. Gallwn eich cefnogi i gael hyfforddiant, cyllid perthnasol, eich cysylltu â grwpiau cymunedol eraill, helpu i nodi cryfderau ac asedau'r gymuned a helpu i ddatblygu digwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned.

Os ydych am chwarae rhan fwy gweithredol yn eich cymuned a dod yn llysgennad cymunedol, cysylltwch â Tracy yn BAVO, T: 01656 810400 neu E: bavo@bavo.org.uk



Gofynnwch i CERi!

Mae CERi yn asiant rhithwir sydd wedi'i hyfforddi gan staff y GIG ac aelodau o'r cyhoedd yng Nghwm Taf Morgannwg i ateb cwestiynau cyffredinol sydd gennych ar COVID-19, a elwir hefyd yn Coronafeirws.

Mae CERi yn sylweddoli eich bod chi mae'n debyg yn ofnus ac yn ansicr ynghylch yr hyn y dylech neu na ddylech ei wneud tra byddwn yn symud allan o'r cwarantyn yn raddol. Mae CERi wedi'i hyfforddi i roi atebion a chynghor cyffredinol i chi o ffynonellau y gellir ymddiried ynddynt.

Mae CERi yma i chi 24/7 i'ch helpu i gyrchu'r cymorth a'r cynghor cywir.

Mae CERi yn darparu:

- tôn empathig;
- atebion am COVID-19 wrth iddo barhau i newid ein bywydau i gyd;
- cymorth i gleifion, gweithwyr iechyd a'r cyhoedd;
- gwybodaeth hanfodol ac yn lleihau galwadau i Ganolfannau Galwadau'r GIG;
- atebion yn Gymraeg, os byddai'n well gennych sgwrsio yn Gymraeg;
- ffordd i ni ddysgu ac esblygu wrth i bob un ohonom fynd drwy hyn gyda'n gilydd.

Darganfyddwch sut i ddefnyddio CERi drwy ymweld â cwmtafmorgannwg.wales/ask-ceri



HYDREF 2020

Rydym wedi cael ein cydnabod am ein gwaith gyda chyfeillion gwirfoddol!

Mae BAVO wedi llwyddo i ennill Gwobr Ansawdd mewn Cyfeillio'r DU am ein prosiect Cydymaith Cymunedol a ariennir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Mae ein prosiect yn cynnig gwasanaeth cyfrinachol ac anfeiriadol o ansawdd uchel sy'n recriwtio gwirfoddolwyr i fod yn gyfaill i bobl a allai deimlo'n ynysig neu'n unig.

Y Wobr Ansawdd mewn Cyfeillio yw'r unig wobwr yn y DU sydd wedi'i theilwra'n benodol ar gyfer gwasanaethau cyfeillio. Mae'n cydnabod Arfer Da a gwasanaeth o safon. Dywedodd llefarydd ar ran y wobwr: "Mae'n amlwg bod y prosiect Cydymaith Cymunedol yn sicrhau

canlyniadau gwyh i'r buddiolwyr a'r gwirfoddolwyr. Mae'r polisiau, y gweithdrefnau a'r hyfforddiant clir a thrylwyr yn rhoi llwyfan diogel i'r prosiect gefnogi pobl sy'n defnyddio eu prosiect. Gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol – da iawn!"



Mae'n dda siarad!

Mae pandemig Covid-19 yn bendant wedi cynyddu unigedd ac unigrwydd i gynifer o bobl yn ein cymuned, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed. Rydyn ni wedi cael ein llethu ac yn hynod ddiolchgar gan nifer y gwirfoddolwyr a ddaeth ymlaen i ymuno â'n gwasanaeth cyfeillio dros y ffôn. Rhwng mis Mawrth a diwedd mis Gorffennaf, cafodd dros 220 o bobl alwadau ffôn gan wirfoddolwr i helpu i leddfu eu hunigrwydd, i sicrhau eu bod yn ymdopi neu darganfod a oedd angen unrhyw wasanaethau eraill arnynt.

Ydy'r cyfnod cloi wedi peri i chi diflasu a theimlo'n unig? Beth am godi eich ysbryd drwy wirfoddoli? Mae cyfeillio dros y ffôn yn eich helpu chi a'r person rydych chi'n ei ffonio! Wedi eich ynysu a theimlo'n bryderus? Gallai sgwrs wythnosol gyda chydymaith eich helpu i ailgysylltu â'r byd!

Wrth i'r cyfnod clo gael ei lacio, byddwn yn chwilio am gyfeillion gwirfoddol newydd i ymuno â'n prosiect Cydymaith Cymunedol, gan helpu buddiolwyr drwy ymweld â nhw gartref, efallai mynd â nhw allan o gwmpas y lle neu hyd yn oed am drip i gaffi am gwpanaid a sgwrs, a'r cyfan yn helpu i wella eu hiechyd a'u lles cyffredinol.

Am fanylion pellach cysylltwch â'n Swyddog Datblygu Cydymaith Cymunedol Siân Thomas yn BAVO, Ff: 01656 810400, E: bavo@bavo.org.uk neu ewch i'n tudalen Cydymaith Cymunedol yn www.bavo.org.uk

HYDREF 2020

Cyngor ar Bopeth Bu Pen-y-bont ar Ogwr yn helpu dros 1,000 o bobl ers y cyfnod clo

Bydd yr wythnosau a'r misoedd nesaf yn anodd; bydd rhewi dyledion dros dro a chyfnodau aros cyn troi allan yn dod i ben ac rydym yn debygol o weld rhagor o ddiswyddiadau ar draws y gymuned wrth i gynlluniau cadw swyddi gael eu tynnu'n ôl.

Mae Cyngor ar Bopeth Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo i gefnogi Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ailadeiladu eu gwydnwch a dod drwy hyn gyda'i gilydd.

Ers dechrau mis Mawrth, mae eu cyngor wedi helpu ymhell dros 1,000 o bobl ar draws y fwrdeistref sirol ac maen nhw'n gweithio tuag at agor eu llinellau ffôn am gyfnodau hwy i helpu hyd yn oed mwy.

Maen nhw am ddiolch i'w gwirfoddolwyr a sefydliadau gwych ledled yr ardal leol a fu'n gweithio gyda nhw ac maen nhw'n edrych ymlaen at barhau i adeiladu rhwydweithiau cryf o gefnogaeth i'w cleientiaid.

Ni allant gynnig cyngor wyneb yn wyneb ar hyn o bryd, ond gallwch ffonio eu llinell swyddfa ar 01656 762800 o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.30am a 2.30pm.

Maen nhw'n dal i gynnig cyngor llawn, yn union fel y byddent pe bai'r swyddfa ar agor, felly gallwch alw gydag unrhyw broblem.

cyngor ar bopeth

citizens advice

Sirol Pen-y-Bont
ar Ogwr
Bridgend
County Borough



Ymunwch â chronfa ddata genedlaethol y trydydd sector 'infoengine' am DDIM!

infoengine.cymru

Os ydych chi'n sefydliad neu'n grŵp gwirfoddol, drwy gofrestru eich sefydliad bydd eich manylion yn cael eu rhestru am ddim yn eu cyfeiriadur cynhwysfawr, gallwch hyrwyddo eich gwasanaethau i gynulleidfa ehangach a denu pobl yn eich cymuned a thu hwnt!

Os oes angen help arnoch chi i gofrestru, cysylltwch â BAVO a gallwn helpu.



Helo i'n haelodau NEWYDD!

Aberkenfig Boys & Girls Club
Badgers Brook Allotment
Bridgend Astronomical Society
Bridgend & District Fishing for Disabled Association
Coed Pen-Y-Fai Trust
Contemporant Theatre
Cornelly Community Council (Supporter Membership)
Cornelly Songbirds
Cwlwm Celtaidd – Wales' Interceltic Music & Dance Festival
Cylch Meithrin Gwdihw
Cymru Versus Arthritis
Garw Valley Angling Association
Health & Wellbeing Tai Chi Therapy
Home-Start Cymru for Families
Karma Seas CIC
Kenfig Hill ABC
Learning Disability Wales
Linc Cymru Housing Association Llangeinor and District
Senior Citizens Association
Llangynwyd Middle Community Council
Maesteg Central Division – St John Ambulance Wales

Maesteg Celtic Bowling Club
Maesteg Community First Responder
Maesteg Hen Shed
Merthyr Mawr Community Council
MG Breaking Free CIC
Morgannwg Endeavour Charitable Trust
Morgannwg Target Sprint
Noddfa Community Project
No Limits Neurodiversity
Play and Learn Community Playgroup
Porthcawl Befriending Group
Porthcawl Covid-19 Strategy Group
Royal Voluntary Service
Sense Cymru
Small Woods
St Theodore's Church and Wellbeing Centre
Tremains Woodland Rangers
Trustees – Williams Memorial Hall Wales Air Ambulance Association
Western Beacons Mountain Rescue Team
Wyndham Community Centre & Bowls Club

Ddim yn aelod o BAVO eto?!

Ydych chi'n grŵp neu'n elusen gymunedol, neu ydych chi am ddechrau un? Ydych chi'n chwilio am gyllid?

Oes angen mwy o wirfoddolwyr arnoch chi? Ydych chi am gyfarfod â grwpiau o'r un anian? A oes angen help arnoch chi i ddatrys problem?

Rydym yn darparu cymorth RHAD AC AM DDIM i'r holl grwpiau cymunedol a gwirfoddol, mentrau nid-er-elw a mentrau cymdeithasol sy'n aelodau yn ein hardal. Rydym hefyd yn darparu rhai gwasanaethau ymgynghori. Rydyn ni ochr arall y ffôn a gallwn helpu gyda unrhyw beth rydych chi ei angen.

Mae ein ffurflen aelodaeth BAVO a gwybodaeth bellach i'w gweld drwy ymweld â www.bavo.org.uk

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â BAVO, T. 01656 810400 neu E: bavo@bavo.org.uk



BAVO

Bridgend Association of Voluntary Organisations
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr

**Ewch i'n gwefan yn
www.bavo.org.uk!**

Ewch i'n gwefan ar gyfer popeth rydych chi angen ei wybod os ydych chi'n bwriadu sefydlu neu redeg grŵp neu sefydliad gwirfoddol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr neu os ydych chi'n unigolyn sy'n chwilio am wasanaethau gwirfoddol!

Mae gennym dros 100 o daflenni gwybodaeth, ymgynghoriadau cyfredol, cyfleoedd ariannu, partneriaethau, y newyddion diweddaraf am y trydydd sector a llawer mwy!

Hoffai BAVO ddiolch i'r holl gyfranwyr i gylchlythyr yr hydref.

Os hoffech gynnwys erthygl yn ein rhifyn nesaf, Ff: 01656 810400 neu E: bavo@bavo.org.uk



Dilynwch ni ar Twitter a Facebook am newyddion a diweddariadau dyddiol!



Rydym yn cadw'r hawl i olygu deunydd neu hepgor erthyglau lle bernir eu bod yn amhriodol neu os nad yw adnoddau'n caniatáu cynhwysiant. Ymddiheurwn os ydych chi wedi anfon erthygl nad yw wedi'i chynnwys yn y rhifyn hwn. Efallai na fydd y safbwyntiau a fynegir yn yr erthyglau yn y cylchlythyr hwn yn cynrychioli barn BAVO.

English version available on request • Awst 2020 ©BAVO

**Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr
112- 113 Commercial Street, Maesteg, CF34 9DL Ff: 01656 810400
E: bavo@bavo.org.uk www.bavo.org.uk**

Rhif cwmni: 07691764 Rhif Cofrestru Elusen: 1146543